# Awgrymiadau

# Aneirin Karadog...

## ...ar gyfer bod yn Fardd o Fri

**1. Rhywbeth i'w ddweud** – meddyliwch am yr hyn rydych yn ceisio ei gyfleu wrth ysgrifennu. Mae cerdd sy'n adrodd neges yn gallu bod yn rhywbeth pwerus sy'n procio'r meddwl, a hyd yn oed yn gallu cyflawni newid er gwell, neu gyffwrdd yng nghalon rhywun.

2. Cyfleu'r hyn rydych yn ei weld – sut gallwch chi gyfleu'r syniad sydd wedi'ch ysbrydoli? Y ffordd fwyaf effeithiol yw paentio darluniau gyda geiriau. Trwy ddefnyddio cyffelybiaethau, trosiadau a chwarae gyda geiriau, bydd eich cerdd yn llwyddo. A allwch chi feddwl am gymhariaeth effeithiol ar gyfer y pwnc rydych yn ysgrifennu amdano? E.e. a yw'r brifysgol rydych yn ymweld â hi yn edrych yn debyg i gwch, llong ofod neu hyd yn oed anifail neu greadur estron?

**3. Y sain – sut mae'n swnio?** – dyma lle mae'r gerddoriaeth yn eich barddoniaeth yn dod i'r amlwg – defnyddiwch yr hyn rydych wedi'i ddysgu am gynghanedd i roi sain arbennig i'ch cerddi.

POSTCARD

### Cynghanedd: Crewch eich Kung-fu Cymraeg eich hun

Cofiwch mai rhywbeth i'r glust yw'r gynghanedd – gallwn ei ddeall trwy wrando! Felly gwrandewch ar eich llinellau wrth i chi ysgrifennu.

Ydyn nhw'n canu?
Ydych chi'n clywed miwsig ynddyn nhw?

**Llusg:** Mae'r llinellau hyn yn cynnwys odl fewnol. Mae diwedd hanner cyntaf y llinell yn odli gyda'r sill olaf ond un yng ngair olaf y llinell.

To begin / at the beginning
Time to face / the chaser
Be brave / like a raven!
Nunlle gwell / na Llanelli
Mae gwên / yn rhoi llawenydd



**Sain:** Mae'r gynghanedd hon yn cyfuno odli a chyflythrennu neu gyseinedd.

Odl + Odl + Cyflythrennu (Gair unsill)
Make fish / the dish / of the day
Think / before you drink / and drive
Iaba / daba / dŵ!
Are you a chancer / or a dancer / Dave?
Tra môr yn fur / i'r bur / hoff bau
Prynu / a gwerthu / gwartheg.

**Traws / Croes / Cytseiniol**: Mae'r llinellau hyn wedi'u rhannu'n ddwy ran a rhaid ateb y cytseiniaid yn y ddau hanner o gwmpas pwyslais y geiriau.

Are you a saint, / dear Santa?
Welcome / to Wilko
Though I sang / in my chains like the sea.

*Dwi'n barod / yn y bore*
*Ydych chi / 'di dod â char?*
*Cael cip / ar y copi.*

## Geiriau Cymraeg Defnyddiol ym Myd Rhyfeddol Cynghanedd

Cynghanedd = ffurf hynafol ar gelfyddyd farddonol mewn llinellau o farddoniaeth, sy'n golygu 'harmoni' yn llythrennol

Cerdd Dafod = 'Tongue Music', ffordd arall o ddweud 'cynghanedd'.

Awen = Ysbrydoliaeth

Pastwn = Ffon farddol sy'n cael ei defnyddio i gadw curiad

Llusg = Fel 'llusgo'

Traws = Fel teithio 'ar draws'

Croes = Mynd ar draws y llinell

Sain = Y sŵn

Acen = Pwyslais y gair. Dyma'r curiad o fewn yr odl sy'n dod o'r gair a'i bwyslais a'i ffurfiau amrywiol.

Cytsain/Cytseiniol = 'Consonant' / 'Consonantal'

Odl = 'Rhyme'

Barddoni = creu barddoniaeth – berf sy'n cwmpasu popeth yn ymwneud â barddoniaeth: o ysgrifennu, darllen, dysgu, perfformio a gwerthfawrogi i hel sibrydion!

## Y Curiad – Y Penawdau Cynganeddol Diweddaraf

### PENBLWYDD HAPUS CYNGHANEDD!

Mae'r ffurf hynafol ar gelfyddyd barddonol sydd wedi esblygu gyda'r Gymraeg yn troi'n 1500 oed heddiw. Ac er ei bod wedi cyrraedd oedran o'r fath, ac nid yw'n cael ei gweld yn gyhoeddus yn aml, mae si ar led bod y gynghanedd mor ifanc ac ystwyth ag erioed ac nid yw'n dangos unrhyw arwydd o heneiddio. Mae hyd yn oed busnesau a chynhyrchion masnachol wedi cael eu swyno ganddi ac wedi dechrau ei defnyddio. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys:

I'm amazed at Mazda

Welcome to Wilkos

Organic Oregano

Rapidough – The modelling guessing game


Terry's Chocolate Orange

Haylage and silage for sale

Prynu / a gwerthu / gwartheg.

### BEIRDD O FRI YN YMDDANGOS YM MHOBMAN!

Rydyn ni wedi derbyn adroddiadau bod beirdd ifanc yn ymddangos dros Gymru gyfan yr wythnos hon, gyda phenillion gan feirdd ifanc yn meddiannu ein prifysgolion. Os byddwch yn dod ar eu traws, byddwch yn ofalus! Byddan nhw'n eich defnyddio fel ysbrydoliaeth a'ch troi yn gerdd gofiadwy yn llawn delweddau, chwarae gyda geiriau ac, mewn rhai achosion, cynghanedd farwol! Os ydych chi'n pryderu am hyn, neu eisiau rhoi gwybod am achos o farddoni, cysylltwch â Gorsedd Cymru ar 1792-2020-1792 a gofynnwch am Iolo Morganwg.




### CYHOEDDI LLEOLIAD EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2021

Yn dilyn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron eleni, a gynhelir yn wythnos lawn gyntaf mis Awst, bydd gŵyl ddiwylliannol y Gymraeg yn teithio i ardal wledig Boduan, sydd rhwng Pwllheli a Nefyn ym Mhen Llŷn. Yn y cyfamser, mae'r paratoadau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yn mynd rhagddynt, gyda gŵyl ieuenctid fwyaf Ewrop yn glanio yn Sir Ddinbych ym mis Mai, ac yna Sir Gaerfyrddin yn 2021. Cofiwch ymweld er mwyn cael llond cae o ddiwylliant y Gymraeg, yn ogystal ag ymweld â Gŵyl y Gelli ar 21-31 Mai 2020, wrth gwrs!